Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Brynaerau

Dyddiad yr arolygiad: 17/11/2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae ffederasiwn Talaerau, sy'n cynnwys ysgolion Talysarn a Brynaerau, yn gymuned gynnes a gofalgar lle mae lles a chynnydd disgyblion yn greiddiol i'w ethos. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu  ei weledigaeth yn effeithiol. Mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu.

Trwy gyd-gynllunio effeithiol, mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n ymgysylltu â diddordebau'r disgyblion ac yn darparu cyfleoedd pwrpasol i bron bob un gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn ffyrdd ystyrlon. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac, o ganlyniad, mae bron pob un yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae staff yn fodelau iaith cadarn ac yn darparu cyfleoedd cyson i feithrin siaradwyr Cymraeg naturiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos hyder cynyddol yn eu medrau llafar ac yn datblygu balchder yn eu hunaniaeth Gymraeg.

Trwy themâu dosbarth, cyfnodau myfyrio a sesiynau addoli, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i archwilio gwerthoedd fel caredigrwydd, parch ac empathi, gan gyfrannu at eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn fuddiol.

Mae llais y disgybl yn elfen sefydledig o fywyd a gwaith y ffederasiwn, gyda grwpiau disgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol at agweddau pwysig yr ysgol, gan gynnwys hybu presenoldeb a phrydlondeb cyson. Fodd bynnag, mae cyfradd absenoldeb parhaus ychydig o ddisgyblion yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu cynllunio'n ofalus, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar wella ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cynnig her briodol a chefnogaeth fuddiol wrth fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella presenoldeb ychydig o ddisgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2026